John Griffiths AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a
Chymunedau

8 Ionawr 2020

Annwyl John,

**Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru)**

Anfonodd Archwilydd Cyffredinol Cymru gopi o'i ymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau ar y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) at y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, a bu i ni drafod yr ymateb yn ein cyfarfod ar 6 Ionawr 2020.

Rydym yn deall bod ymgynghoriad eich Pwyllgor ar y Bil wedi dod i ben ar 3 Ionawr ond hoffem gymeradwyo barn yr Archwilydd Cyffredinol ac amlygu nifer o bryderon ychwanegol sydd wedi codi yn ystod ein gwaith craffu diweddar ar weithredu Cynghorau Tref a Chymuned yng Nghymru. Nodir y pryderon hyn isod a hyderaf y bydd y rhain yn cael eu hystyried fel rhan o waith craffu Cyfnod 1 eich Pwyllgor ar y Bil.

**Ymateb Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r Ymgynghoriad**

Er ein bod am ategu'r ymateb yn ei gyfanrwydd, mae gennym nifer o bwyntiau penodol yr ydym am dynnu eich sylw atynt:

- Hunanasesiadau

Rydym yn rhannu pryderon yr Archwilydd Cyffredinol na fydd gofynion adran 90 o reidrwydd yn gwella ansawdd hunanasesiadau. Nid ydym yn argyhoeddedig y bydd hunanasesiadau yn sicrhau'r lefel o drylwyredd a gwrthrychedd cyson sy'n

ofynnol i fod yn effeithiol. Nid ydym yn glir sut y bydd y gofynion hyn yn gwella ar ôl profiadau 'Adolygiadau Gwerth Gorau', yr oedd yn rhaid i awdurdodau lleol eu gwneud o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 1999, a Mesur 2009, a oedd yn dangos gwendidau gyda'r dull hwn.

- Asesiadau Panel

Rydym yn rhannu amheuon yr Archwilydd Cyffredinol ynghylch a fydd asesiadau panel (adran 91) yn cyflawni amcanion Gweinidogion Cymru a'r risgiau sy'n gysylltiedig ag awdurdodau lleol yn penodi eu paneli eu hunain. Ymddengys bod hyn yn gwrthdaro â llywodraethu da gan fod paneli hunan-ddewis yn agored i'r risg o hunan-fuddiant sy'n tanseilio eu gwrthrychedd.

- Cydlynu rhwng rheoleiddwyr

Rydym yn synnu at y gofyniad yn adran 118 o'r Bil i lunio amserlenni ar gyfer pob cyngor ar gyfer rheoleiddio swyddogaethau gan reoleiddwyr. Cytunwyd bod angen i arolygiadau gan reoleiddwyr gael elfen o fod yn fyr rybudd er mwyn bod yn effeithiol a chael cipolwg cywir i'r cyrff sy'n cael eu harchwilio.

**Cynghorau Cymuned a Thref**

- Cynyddu democratiaeth a chyfranogiad


Efallai eich bod yn ymwybodol bod y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus wedi cynnal sesiwn dystiolaeth gyda Llywodraeth Cymru ar 25 Tachwedd 2019 ar oblygiadau ariannol a llywodraethu cynghorau tref a chymuned. Yn dilyn y sesiwn honno, cytunodd Llywodraeth Cymru i ysgrifennu gyda data yn ymwneud â nifer y seddau cynghorau tref a chymuned na chynhelir etholiad yn yr etholiad diwethaf (2017).

Mae'r Pwyllgor wedi anfon copi o lythyr Llywodraeth Cymru i lywio'r gwaith y mae eich Pwyllgor yn ei wneud ar y Bil. Roeddem yn pryderu am y nifer uchel o seddau lle na chynhelir etholiad a'r dyletswyddau ychwanegol sy'n cael eu gosod ar y sefydliadau hyn, sydd ynghyd â materion capasiti, yn golygu nad yw'r dyletswyddau ychwanegol hyn yn gallu cael eu cyflawni mewn llawer o Gynghorau Tref a Chymuned. Rydym hefyd o'r farn bod gormod o gynghorau tref a chymuned sy'n gwaethygu'r mater o ddiffyg capasiti ac yn lleihau eu heffeithiolrwydd ymhellach.

Mewn tystiolaeth ysgrifenedig atom, roedd Llywodraeth Cymru yn cyfeirio at gam gweithredu ynghylch defnyddio'r pwerau presennol i sicrhau bod ‘arolygiadau cymunedol’ yn cael eu cynnal yn rheolaidd ac ymgyrchu i annog mwy o bobl i sefyll etholiadau cynghorau tref a chymuned.

Rydym yn ystyried cynyddu democratiaeth a chyfranogiad gyda chynghorau tref a chymuned i fod o’r pwys mwyaf ac mae’n rhaid i gynllun gweithredu Llywodraethau Cymru fod yn flaenoriaeth. Clywsom mewn tystiolaeth lafar fod Llywodraeth Cymru yn ystyried ymgyrch mwy cyhoeddus yn y cyfnod cyn yr etholiadau nesaf. Ei bwrpas yw tynnu sylw at waith cynghorau treth a chymuned ac annog mwy o bobl i ymgysylltu ond hefyd cymryd rhan fwy gweithredol. Credwn fod angen i hyn fod yn weithred yn hytrach nag ystyriaeth yn unig.

Yn gywir,



**Darren Millar AC**
**Cadeirydd (Dros Dro)**